

## ASESIADAU EFFAITH LLAWN

### A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i lenwi i flwch post [CRIA@gov.wales](mailto:CRIA@gov.wales)

#### 1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

Mae'r fframwaith yn nodi'r cyfeiriad a'r gofynion i Sefydliadau GIG Cymru eu hystyried a'u mabwysiadu pan fyddant yn datblygu eu cynllun gweithredol ar gyfer darparu gwasanaethau COVID-19 a gwasanaethau nad ydynt yn rhai COVID-19, yn 2021-22.

Mae'n nodi gofynion byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn ogystal â'r sefydliadau cefnogi cenedlaethol. Bydd yn ofynnol i bob un ohonynt ddatblygu a chyflwyno eu cynllun blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2021. Mae'r cynlluniau hyn yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod y GIG yn agored ac yn gallu gofalu amdanynt beth bynnag yw eu cyflwr, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Mae gweithgarwch ymchwil amrywiol (gan gynnwys arolygon plant) wedi'i gyflawni a bydd yn parhau i gael ei gyflawni ledled Cymru a'r DU er mwyn deall effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc ac ar wasanaethau iechyd a gofal plant. Bydd canlyniadau'r astudiaethau hyn yn llywio'r egwyddorion a'r dulliau gweithredu y bydd Llywodraeth Cymru yn eu mabwysiadu wrth i ni barhau i ddysgu a deall y ffordd y mae COVID-19 yn gweithio.

Cydnabyddir ar hyn o bryd bod plant iau dan lai o risg o COVID-19. Gwelir hyn drwy'r risg is y bydd plant iau yn dal y clefyd, yn ogystal â risg is iddynt ddatblygu symptomau difrifol o ganlyniad i ddal COVID-19. O ganlyniad, y consensws cyffredinol yw bod plant yn llawer llai tebygol o ledaenu'r clefyd nag y credwyd i ddechrau. Mae'r fframwaith yn cynnwys y boblogaeth gyfan ac felly mae plant wedi'u cynnwys yn y gofynion, ond cyfeirir atynt yn arbennig pan fo hynny'n berthnasol.

Mae ymchwil gan Brifysgol Rhydychen yn dangos y gallai effaith y pandemig ar iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc fod yn sylweddol. Mae rhieni a gofalwyr plant 4-10 oed yn adrodd am gynnydd yn anawsterau emosiynol eu plentyn – gan deimlo'n anhapus ac yn bryderus a phrofi symptomau corfforol sy'n gysylltiedig â phryder\*, wrth i 39% o blant a phobl ifanc 11-18 oed a ymatebodd i arolwg Comisiynydd Plant Cymru 'Coronafeirws a Fi'\*\*\* ddweud eu bod wedi bod yn poeni'r rhan fwyaf neu ran o'r amser yn ystod y pandemig.

Mae gweithredu gwasanaethau hanfodol yn ystod 2021-22 yn bwysig i blant o bob oed. Mae'r fframwaith yn cydnabod yr angen i gynnal gwasanaethau hanfodol ac yn nodi'r angen am y canlynol:

- Bod gwasanaethau yn cael eu cynllunio o amgylch yr unigolyn ac o amgylch grwpiau o bobl, wedi'u seilio ar eu hanghenion unigryw a'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â chanlyniadau ansawdd a diogelwch;
- Mai dim ond pan fydd yn hanfodol y dylai pobl fynd i ysbyty cyffredinol, gyda gwasanaethau ysbyty wedi'u cynllunio i leihau'r amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysbyty;
- Bod adnoddau yn cael eu symud i'r gymuned er mwyn gallu cael gafael ar ofal mewn ysbytai (pan fydd ei angen) yn gyflymach;
- Defnyddio technoleg i gefnogi gwasanaethau o ansawdd da.

Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn ogystal ag oedolion.

## **2. Eglurwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.**

Drwy ddatblygu'r fframwaith, bwriedir iddo gael effaith gadarnhaol ar nifer o erthyglau CCUHP, yn benodol:

Erthygl 6: Yr hawl i fywyd ac i dyfu i fod yn iach.

Erthygl 19: Yr hawl i beidio â chael ei niweidio ac i gael gofal ac chael ei gadw'n ddiogel

Erthygl 20: Yr hawl i dderbyn gofal addas os nad yw'r plentyn yn gallu byw gyda'i deulu ei hun.

Erthygl 23: Yr hawl i ofal arbennig a chymorth os oes gan y plentyn anabledd er mwyn iddo ef/iddi hi fyw bywyd llawn ac annibynnol


Erthygl 24: Yr hawl i fwyd da a dŵr ac i weld y meddyg os yn sâl.

Erthygl 25: Hawl plentyn nad yw'n byw gyda'i deulu i ymweliadau cyson i sicrhau ei fod yn ddiogel.

Erthygl 39: Yr hawl i gymorth arbennig os yw'n cael ei gam-drin

Rhan o swyddogaeth y fframwaith yw rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ein bod yn cydweithio ledled y wlad i gadw Cymru'n ddiogel, mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc.

Mae'r fframwaith yn cydnabod y pedair lefel o niwed:



Niwed yn sgil  
gostyngiad mewn  
gweithgarwch nad yw'n  
ymwneud â COVID

Niwed o gamau  
cymdeithasol  
ehangach/  
cyfyngiadau symud

Mae'r fframwaith yn atgyfnerthu'r angen i gynnal gwasanaethau hanfodol yn ystod 2021-22. I blant a phobl ifanc yn arbennig, mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar y cymorth a'r driniaeth y mae eu hangen arnynt, p'un ai ar gyfer eu lles corfforol neu feddyliol.

Oherwydd y cyflwynwyd nifer o atebion digidol i ymateb i anghenion cymorth plant a phobl ifanc (er enghraifft, pecyn cymorth iechyd meddwl y person ifanc a chanolfan wybodaeth ar gyfer plant ifanc sydd wedi cael profiad o ofal), bydd angen cefnogi'r rhai hynny sydd wedi'u hallgau yn ddigidol, a hynny ar gyfer y cyfnod COVID-19 yn unig neu'n ehangach yn y gymdeithas.

Bydd angen sicrhau bod plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn gallu manteisio ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i ddefnyddio gwasanaethau digidol. O ganlyniad, yn ystod y camau cychwynnol, gall rhai plant a phobl ifanc, sydd naill ai'n byw mewn tloedi neu mewn ardaloedd gwledig lle nad oes modd iddynt ddefnyddio band eang, gael eu heffeithio yn negyddol o ran cael gafael ar wybodaeth.

Mae'r Cynllun Diogelu ar gyfer y Gaeaf yn nodi amrywiaeth o feysydd y mae angen i sefydliadau'r GIG a'u partneriaid gofal cymdeithasol fod yn ymwybodol ohonynt wrth gynllunio ar gyfer y gaeaf. Er nad oes adran benodol ar gyfer plant, disgwylir i sefydliadau partner gynllunio a darparu gwasanaethau priodol i blant a phobl ifanc yn unol â'u dyletswyddau statudol.

Mae'r fframwaith yn cydnabod pwysigrwydd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb, drwy amrywiaeth o ddulliau (gan gynnwys cynadleddau i'r wasg, defnyddio teledu, radio, papurau newydd a chyfryngau cymdeithasol) ynglŷn â sut mae COVID-19 yn olrhain ac yn lledaenu ledled Cymru'r gaeaf hwn. Bydd hyn yn cynnwys safleoedd cyfryngau sy'n ystyriol o blant a chymorth wedi'u rheoli drwy ysgolion a sefydliadau addysgol (e.e. meithrinfeydd ac addysg bellach).